**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 06-01(min)**

**Cofnodion**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 11 Ebrill 2001 |
| **Amser:** | 11.00am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, Cadeirydd | Canol a Gorllewin Cymru |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Delyth Evans | Canol a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Swyddogion* | |
| Huw Brodie | Adran Amaethyddiaeth |
| Rory O’Sullivan | Is-adran Polisi Amaethyddol |
| Tony Edwards | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Roger Thomas | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, cyfnewidiadau a datganiadau o fudd**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriad gan Huw Lewis. Datganodd y Cadeirydd fod iddo fudd fel ffermwr a bod ei fferm yn agos at nifer o achosion a gadarnhawyd. Dywedodd Mick Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio a Peter Rogers ei fod yn ffermwr.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ceisiadau i drafod y caeau arbrofol ar gyfer cnydau a addaswyd yn enetig ond ei fod yn teimlo na fyddai'n briodol gwneud hynny gan fod y Llywydd wedi cytuno i gynnal y cyfarfod er mwyn trafod clwy'r traed a'r genau. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu galw cyfarfod arall o'r Grwp Strategaeth Addasu Genetig a hynny y dydd Mercher dilynol mae'n debyg.

**Eitem 2: Clwy'r Traed a'r Genau**

2.1 Dywedodd y Gweinidog fod y cwl ar Ynys Môn bron â chael ei gwblhau. Yr oedd safle Mynydd Epynt yn dal i gael ei ddefnyddio i waredu cyrff anifeiliaid ond cafwyd rhai anawsterau. Yn ystod y penwythnos yr oedd lori wedi mynd i'r cyfeiriad anghywir tua Chaerfyrddin. Ni fyddai'r contractwr dan sylw'n cael ei ddefnyddio mwyach. Yr oedd yr hylif a oedd wedi gollwng o lori a oedd yn cario cyrff anifeiliaid yn gyfuniad o ddiheintydd a gwaed. Collwyd yr hylif gan nad oedd y lori wedi ei llenwi'n iawn. Yr oedd y trefniadau wedi eu newid ers hynny a chyfrifoldebau wedi eu hegluro, ac yr oedd y broses bellach yn cael ei goruchwylio gan y Fyddin.

2.2 Mynegwyd y farn nad oedd yn ddoeth defnyddio Mynydd Epynt i waredu anifeiliaid cwl gan mor agos ydoedd at ardal lân Gorllewin Cymru ac oherwydd yr effaith bosibl ar dwristiaeth. Cydnabuwyd fodd bynnag ei bod yn anodd nodi safleoedd addas. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r Gweinidog yngl•n â'r safle a'i addasrwydd;

- beth oedd ei gyfrifoldebau cyfreithiol yng nghyswllt y gwastraff a'r safle? Dywedodd y Gweinidog mai'r Weinyddiaeth Amaeth Pysgodfeydd a Bwyd oedd yn gyfrifol am reoli'r safle a bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn gyfrifol am arolygu'r effaith ar yr amgylchedd gan gynnwys ymlediad d•r a daeareg y safle;
- pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda chynghorau sir Caerfyrddin a Phowys? Dywedodd y Gweinidog ei fod wedi cyfarfod y cynghorau a bod y naill a'r llall wedi gofyn sut y gallent helpu. Nid oedd unrhyw sail i'r straeon bod Powys yn ystyried camau cyfreithiol;
- pa safleoedd eraill oedd ar gael ym Mhowys ac ar Fynydd Epynt? Yr oedd Cyngor Sir Powys a'r Fyddin wedi methu â chanfod unrhyw safleoedd eraill i waredu'r anifeiliaid. Nododd y Pwyllgor fod pum safle posibl wedi eu hystyried ar Fynydd Epynt. Y ddau a ddewiswyd, ar gyfer claddu a llosgi, oedd y rhai addasaf;
- o ble'r oedd y cyrff a oedd i'w gwaredu yn dod? Dywedodd y Gweinidog mai cyrff stoc cwl

o ffermydd ym Mhowys a Sir Fynwy a oedd yn cydgyffwrdd ag achosion a gadarnhawyd oedd y rhain. Nid oedd unrhyw gyrff yn cael eu cludo i'r safle o achosion a gadarnhawyd;

- a oedd wedi ystyried gofyn am ail farn yngl•n ag addasrwydd safle Mynydd Epynt? Dywedodd y Gweinidog fod y penderfyniad i ddefnyddio'r safle wedi ei wneud ar ôl derbyn cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd, y Fyddin, y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a swyddogion. Yr oedd gan Asiantaeth yr Amgylchedd gyfrifoldeb statudol ac ni fyddai'n briodol gofyn am gyngor gan unrhyw ffynhonnell arall;
- prif bryder pobl leol oedd y gallai cyflenwadau d•r gael eu llygru. Yr oedd llawer o fân dyllau yn y tir o amgylch y safle ac yr oedd llawer o bobl yn cael eu d•r o ffynhonnau. Yr oedd twll codi d•r ger y safle wedi ei lygru'n barod a gofynnwyd am fwy o fanylion. Dywedodd y Gweinidog mai mater i Asiantaeth yr Amgylchedd oedd d•r ffo. Dywedodd Roger Thomas fod trefniadau arolygu cynhwysfawr iawn yn cael eu dilyn ac y byddent yn parhau hyd y flwyddyn 2013. Yr oedd gwaith modelu wedi ystyried natur holltog y graig ond yr oedd yn awgrymu y dylai'r safle fod yn ddiogel. Yr oedd d•r o dan yr wyneb wedi llygru twll codi d•r ger y twll claddu ac yr oedd y llygredd yn cael ei bwmpio oddi yno. Dangosodd profion mai'r hyn a oedd yn gyfrifol am y llygredd oedd gwaed a hylifau corff gwan. Yr oedd asesiad yn cael ei wneud a byddai'r twll yn cael ei selio pe bai angen. Yr oedd olrheinwyr lliw yn cael eu rhoi yn y twll a byddid yn cadw golwg ar dyllau codi d•r o amgylch y safle er mwyn gweld a oedd arlliw ohonynt. Yr oedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn dal i fod yn ffyddiog na fyddai d•r daear yn cael ei lygru;
- yr oedd pobl leol yn awyddus i wybod beth oedd yn digwydd ar y safle. A fyddai modd caniatáu i arweinwyr cymunedau ymweld â'r safle? Nododd y Pwyllgor fod pwyllgor cyswllt lleol wedi ei sefydlu ac y caniateid iddo archwilio'r safle dan drefniant wedi ei reoli. Yr oedd ymdrechion hefyd i sicrhau bod pobl leol yn cael gwell gwybodaeth;
- faint o anifeiliaid oedd wedi cael eu gwaredu ar y safle a lle i faint oedd yno? Nododd y Pwyllgor fod 9,000 o ddefaid ac 1,100 o wartheg wedi eu claddu ar y safle. Yr oedd lle i oddeutu 180,000 o famogiaid ar y safle.

2.3 Gofynnwyd i'r Gweinidog beth oedd yn cael ei wneud er mwyn nodi safleoedd gwaredu eraill. Awgrymwyd y gallai tir coedwigaeth fod yn addas. Cytunodd y Gweinidog y gallai tir coedwigaeth fod yn addas a dywedodd fod Asiantaeth yr Amgylchedd yn edrych ar safleoedd yng ngogledd Powys. Pe bai'r rhai hynny'n addas, ac yn dilyn ymgynghori priodol, gellid eu defnyddio pe bai angen. Yr oedd safle Mynydd Epynt wedi ei nodi fel y safle addasaf a oedd ar gael ac wedi ei ddefnyddio er mwyn gallu lladd da byw heintiedig cyn pen y 24 awr a nodwyd a chwlio stoc ar ffermydd sy'n cydgyffwrdd cyn pen y 48 awr a nodwyd. Nid oedd unrhyw safle'n ddelfrydol.

2.4 Oherwydd yr anhawster ymddangosiadol i gael digon o loriau i gario stoc cwlio i safleoedd gwaredu canolog ac o ganlyniad i'r profiad ar safle claddu Maes Awyr Mona dylid ystyried y dewis o waredu ar ffermydd. Dywedodd y Gweinidog y byddai angen gwneud asesiadau o'r effaith y byddai llosgi a chladdu ar ffermydd yn ei gael ar yr amgylchedd. Nid oedd digon o bobl gymwys i wneud asesiadau o'r fath ac o ganlyniad gallai'r cwl gael ei ddal yn ôl. Yr oedd yn haws trefnu cludiant i safleoedd claddu mawr na sicrhau'r peiriannau a'r deunyddiau y byddai eu hangen i waredu ar safle. Ychwanegodd fod digon o loriau ar gael erbyn hyn.

2.5 Mynegwyd pryder bod ffermwyr yn dioddef prinder porthiant yn dilyn y tywydd difrifol yn gynharach yn y flwyddyn. Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod wedi codi pwnc cymorth â phorthiant gyda Gweinidogion Amaeth eraill y DG ond nad oedd wedi cael digon o gefnogaeth i fynd ag ef ymhellach. Nododd fod arian yn cael ei fuddsoddi mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd er mwyn ceisio sicrhau na fyddai rhywbeth tebyg yn digwydd eto.

2.6 Holwyd y Gweinidog yngl•n ag effaith y cyfyngiadau symud ar ffermwyr llaeth sydd angen cyfloi gwartheg. Cadarnhaodd y gellid symud teirw i ffermydd i'r diben hwn ond bod symudiadau dilynol ar fferm yn cael eu rheoli gan gyfyngiadau'r Weinyddiaeth Amaeth. Yr oedd yn trafod y mater gyda'r Weinyddiaeth. Yr oedd hefyd yn cymryd camau i lacio cyfyngiadau ar ffrwythloni artiffisial mewn ardaloedd heb eu heintio.

2.7 Gwnaethpwyd nifer o bwyntiau wrth drafod y trefniadau ar gyfer dosbarthu trwyddedau symud:

- yr oedd Senedd yr Alban wedi cymryd camau i lacio cyfyngiadau symud mewn ardaloedd glân;
- yr oedd angen hyblygrwydd wrth roi trwyddedau i wneud symudiadau pell i ddaliadau lle'r oedd rhan, ond nid y cyfan o'r tir yn ffinio ar dir comin;
- yr oedd rhai ardaloedd a oedd wedi eu diffinio fel tir comin bellach, mewn gwirionedd, yn dir caeedig yn hytrach na thir pori ar y cyd;
- byddai'n bwysig rhoi ystyriaeth ofalus i les anifeiliaid wrth ddosbarthu trwyddedau pan fyddai angen symud i dir pori ar gyfer y gwanwyn a'r haf.

2.8 Mewn ymateb, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd gan y Cynulliad yr un hawl â Senedd yr Alban i lacio cyfyngiadau a bod hyn yn achos rhwystredigaeth. Sicrhaodd y Pwyllgor y byddai mor hyblyg ag y gallai o fewn y rheolau a bennwyd gan y Weinyddiaeth Amaeth. Yr oedd pwnc tir comin wedi ei drafod yn fanwl gyda'r undebau amaethyddol, ond nid oeddent wedi gallu gwarantu y byddai pob ffermwr yn parchu ceisiadau i beidio â symud anifeiliaid i dir o fewn un cilomedr i dir comin. O ganlyniad yr oedd angen i ffermwyr a oedd yn awyddus i symud anifeiliaid bellter byr wneud cais am drwyddedau lleol.

2.9 Holwyd y Gweinidog yngl•n ag achosion honedig o symudiadau anghyfreithlon. Mynegodd rhai aelodau bryder fod honiadau o'r fath yn annheg ac yr oeddent yn awyddus i roi'r cyfrifoldeb i ffermwyr yn hytrach na'r rhai hynny sy'n gyfrifol am reoli'r achosion. Dywedodd y Gweinidog mai'r bobl a oedd yn fwyaf pryderus yngl•n â symudiadau anghyfreithlon oedd y ffermwyr eu hunain. Er nad oedd unrhyw sail i lawer o'r honiadau, teimlai fod y ffaith fod cynifer ohonynt yn gwarantu ymchwiliad pellach.

2.10 Gofynnwyd am eglurhad yngl•n â'r trefniadau ar gyfer gwneud profion. Eglurodd y Prif Swyddog Milfeddygol fod dau fath o brawf yn cael eu gwneud – prawf am arlliw o'r firws mewn meinwe heintiedig a phrawf gwaed am wrthgorffynnau. Nid oedd canlyniad negyddol yn y naill

achos na’r llall yn dystiolaeth bendant nad oedd y clefyd yn bresennol. Mae’n bosibl, er enghraifft, na fyddai meinwe o hen anaf yn profi’n gadarnhaol ac y byddai angen i anifail fod wedi ei heintio am beth amser cyn y gwelid gwrthgorffynnau. Dim ond ar sail diadell neu fuches felly, yn hytrach nag anifeiliaid unigol, yr oedd profion yn ddilys. Yr oedd yn anorfod, felly, na fyddai rhai anifeiliaid a fyddai’n cael eu lladd ar sail arwyddion clinigol yn profi’n gadarnhaol mewn profion labordai cychwynnol.

2.11 Holwyd y Gweinidog yngl•n â’r defaid a laddwyd yn Ffrainc a oedd wedi eu hallforio o ardal Aberhonddu ar 31 Ionawr. Yr oedd profion wedi dangos bod gwrthgorffynnau clwy’r traed a’r genau ynddynt. A oedd hyn yn golygu bod y clwy wedi bod yn ardal Aberhonddu cyn i’r achos cyntaf gael ei gadarnhau. Dywedodd y Gweinidog nad oedd a dywedodd Tony Edwards fod dilysrwydd y profion yn cael ei drafod gyda’r awdurdodau yn Ffrainc.

2.12 Mynegodd yr aelodau bryder nad oedd y cynllun cwlio ar sail lles yn cael ei weithredu’n briodol. Holwyd y Gweinidog, yn fwyaf arbennig, yngl•n â rôl awdurdodau lleol wrth ddewis safleoedd gwaredu dan y cynllun. Nodwyd y byddai ei gwneud yn haws i symud anifeiliaid er mwyn eu lladd mewn ardaloedd heintiedig yn datrys nifer o broblemau yn ymwneud â lles.

2.13 Cytunodd y Gweinidog nad oedd y cynllun yn gweithio fel yr hoffai iddo weithio ond pwysleisiodd mai’r Bwrdd Ymyriad oedd yn gyfrifol am y cynllun. Yr oedd wedi mynegi ei bryder mewn cyfarfod yn gynharach yn yr wythnos yn Stryd Downing ac addawodd y byddai’n parhau i bwyso am welliannau pa bryd bynnag y gallai. Eglurodd y byddid yn ymgynghori ag awdurdodau lleol a phartïon perthnasol eraill yngl•n â safleoedd gwaredu posibl. Yr oedd y penderfyniad terfynol, fodd bynnag, yn nwylo’r Gweinidog ar ôl ymgynghori a derbyn cyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

2.14 Codwyd nifer o faterion eraill:

- holwyd y Gweinidog yngl•n â chyfathrebu gyda ffermwyr. Eglurodd mai pwrpas y llythyr yn rhifyn y diwrnod blaenorol o’r Western Mail oedd rhoi gwybodaeth i ffermwyr yngl•n â’r gwahanol ganolfannau cynghori a oedd ar gael. Yr oedd cyngor a gwybodaeth fanylach yn cael eu hanfon at ffermwyr unigol. Yr oedd canolfannau cynghori symudol yn cael eu defnyddio hefyd mewn ardaloedd lle’r oedd nifer o achosion;
- yr oedd marchnadoedd da byw yn dioddef gan eu bod yn colli busnes. Beth ellid ei wneud i helpu? Dywedodd y Gweinidog y dylai busnesau gysylltu â’r Awdurdod Datblygu i ddechrau ac y byddai’n cynnig cymaint o gefnogaeth ag y gallai;
- yr oedd achos wedi ei gadarnhau yng Nghaerffili ac yr oedd yr holl anifeiliaid bellach yn cael eu difa. Cadarnhaodd y Gweinidog fod ymchwiliad yn cael ei wneud er mwyn canfod sut yr oedd yr haint wedi cyrraedd yr ardal;
- mewn ymateb i gwestiwn cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn dal i aros am gyfarwyddyd gan y Weinyddiaeth Amaeth yngl•n â pha bryd y gellid cynaeafu ar dir heintiedig;
- y Gweinidog i ystyried a ellid rhyddhau ffesantod ar gyfer sesiynau saethu’r hydref;
- cadarnhaodd y Gweinidog fod tasglu’r Bartneriaeth Wledig wedi cyfarfod i ystyried

cynlluniau adfer tymor hir ar gyfer yr economi wledig. Rhennid cyfrifoldeb y cabinet rhwng y Gweinidog ei hun (rheoli'r clwy) y Gweinidog Cyllid (materion cyllidol), y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (twristiaeth a'r economi wledig) a Gweinidog yr Amgylchedd (mynediad i gefn gwlad).

2.15 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau, y Gweinidog a'r swyddogion am eu presenoldeb a therfynodd y cyfarfod.

**Ysgrifenyddiaeth** **Ebrill 2001**